# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 12FED HYDREF, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Ann Roberts**

**01286 679780**

**annelizabethroberts@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 4 Hydref 2017)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Alan Jones Evans |
| Aled Ll. Evans | Judith Mary Humphreys |
| Elin Walker Jones | Olaf Cai Larsen |
| Elfed Williams | Charles Wyn Jones |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Eric M. Jones |
| Kevin Morris Jones | John Pughe Roberts |
| Eirwyn Williams | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Aelod Unigol

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet – Y Gymraeg

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf, 2017 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD YR AELOD CABINET - Y GYMRAEG**

Derbyn adroddiad llafar yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg.

**6. YMATEB I DDOGFEN YMGYNGHOROL PAPUR GWYN Y LLYWODRAETH - TARO'R CYDBWYSEDD IAWN: CYNIGION AR GYFER BIL Y GYMRAEG** 10 - 40

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg

**7. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH** 41 - 42

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

**8. CWYNION AC YMCHWILIADAU** 43 - 44

Ystyried adroddiad y Swyddog Datblygu Iaith

**9. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

Diweddariad ar lafar gan y Swyddog Datblygu Iaith

**10. GWEITHDY**

Ar ddiwedd y cyfarfod, cynhelir gweithdy i drafod Strategaeth Iaith newydd

Gwynedd.
Hwylusydd:  Swyddog Datblygu Iaith.

# PWYLLGOR IAITH, 4.07.17

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Aled Evans, Judith Humphreys, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric M.Jones, Kevin Morris Jones, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams ac Elfed Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Mair Rowlands (Aelod Cabinet – Y Gymraeg)

**Cefnogaeth Gorfforaethol**), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg), Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am 2017/18.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Alan Jones Evans.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2017 rhai cywir.

**6. ADRODDIAD YR AELOD CABINET – Y GYMRAEG**

Cyflwynwyd adroddiad llafar Aelod Cabinet y Gymraeg, yn manylu ar ddatblygiadau diweddar o fewn y maes, gan gynnwys y canlynol:-

- Y Siarter Iaith Cynradd wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol a rhaid sicrhau ei fod yn gweithio yng Ngwynedd ac yn gwneud gwahaniaeth. Byddir yn adrodd i'r Pwyllgor Iaith yn rheolaidd y byddwn yn cael trafodaeth bwysig yn rheolaidd.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

DRAFT

## 7. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR IAITH

Cyflwynodd yr Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol y cefndir a'r newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith a fabwysiadwyd yn y Cyngor llawn ar 15 Mehefin 2017. Adroddwyd bod y newidiadau yn sgil y drefn graffu newydd.

Gwnaed sylwadau y dylai fod gan y Pwyllgor Iaith rôl fwy gweithredol a rhagweithiol. Mynegwyd pryder aelod bod yr iaith yn mynd i'r un cwch a nifer o bynciau eraill.

Adroddodd yr Aelod Cabinet ei bod yn awyddus i fod yn ymgynghori hefo'r pwyllgor rhwng y cyfarfodydd ac os bydd yna fater pendant i fynd ar ei ôl, bydd yn croesawu gweithio hefo aelodau'r Pwyllgor.

Cadarnhawyd mai rôl y pwyllgor ydi edrych ar sut mae polisi iaith mewnol y Cyngor yn cael ei weithredu a sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith. Prif bwrpas y Pwyllgor ydi edrych ar drefniadaeth fewnol y Cyngor mewn perthynas â'r Gymraeg. Adroddwyd bod y Pwyllgor wedi bod yn cynnal ymchwiliadau oedd yn edrych ar bynciau neu faes penodol a llunio cyfres o argymhellion gwella. Adroddwyd y tybir y bydd y drefn yma'n parhau ac awgrymwyd cyflwyno rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor i'w gyfarfod nesaf. Nodwyd y bydd materion yn deillio o'r adroddiad safonau i'w gosod ar y rhaglen waith. Amlinellwyd prif waith y Pwyllgor ac adroddwyd bod hyrwyddo'r Gymraeg yn bwysig a byddir yn ymgynghori gyda'r aelodau ar strategaethau ond prif ffocws y pwyllgor ydi'r trefniadau mewnol.

## 8. Y DREFN GWYNION GORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol yn nodi pwysigrwydd y drefn o ran y cyswllt agos hefo gofal cwsmer i sicrhau bod cwynion yn cael sylw dyladwy a bod goruchwyliaeth o'r ymatebion.

Nodwyd pryder yr aelodau
- na fydd y Gymraeg, sydd mor bwysig, yn derbyn sylw teilwng o ddilyn y drefn gwynion gorfforaethol.
- am y fiwrocratiaeth ac y byddir yn colli golwg ar y nod.
- am ddiffyg rôl i'r pwyllgor o ran dylanwad ar y cwynion a'r ymatebion. Nodwyd, o ran cadw golwg ar y safonau, mae tystiolaeth yn bodoli bod y Cyngor yn ymateb i'r safonau yn iawn beth bynnag a chwestiynwyd rôl y pwyllgor.

Eglurodd y Swyddog Monitro mai trefn gwynion gorfforaethol ar gyfer y cyhoedd ydyw i godi cwynion ynglŷn â gwasanaeth, yn cynnwys cwynion iaith. Nodwyd bod y cyhoedd eisiau datrysiad sydyn felly hanfod y drefn yw gwneud pethau yn rhwydd i'r cwsmer. Os oes gan aelod gwyn, gellir cysylltu â'r gwasanaethau uniongyrchol. Bydd yna rôl i'r pwyllgor os daw yn amlwg bod patrwm cynyddol i'r cwynion ond dim rôl y pwyllgor ydi delio hefo cwynion unigol. Rôl ehangach o ran ansawdd iaith fydd gan y pwyllgor drwy edrych ar dueddiadau.

Mynegwyd pryder aelod nad oedd aelodau'r pwyllgor yn cael gweld y cwynion o hyn ymlaen. Mewn ymateb nodwyd mai cwynion unigol oedd yn cael eu cyflwyno yn y gorffennol ac nid oedd y pwyllgor yn gweld patrymau dros amser. O ganlyniad nid oedd dylanwad ar raglen waith y pwyllgor. Trwy ddilyn y drefn gwynion gorfforaethol bydd tueddiadau yn cael eu hadnabod a gellir dod a'r tueddiadau hynny gerbron y pwyllgor yma.



DRAFT

Mynegwyd pryder aelod bod y Gymraeg yn cael ei gwthio i gael yr un math o ystyriaeth a chwyn am dwll yn y ffordd. Mae'r Gymraeg yn gwbl wahanol ac yn treiddio drwy holl waith y Cyngor.

Cyfeiriodd yr Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol at bwynt 17 yn yr adroddiad sydd yn nodi'r bwriad i adrodd i'r pwyllgor hwn am y niferoedd a'r mathau o gwynion iaith, y patrymau a chynlluniau i wella. Adroddodd bod y trefniadau yn gryfach o fewn y Cyngor erbyn hyn ac yn sicrhau bod y cwsmer yn cael ateb i'w cwyn. Mae safon sut mae'r Cyngor yn delio hefo cwynion wedi gwella oherwydd bod yna oruchwyliaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod adroddwyd na dderbyniwyd cwyn iaith ers y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn.

Gofynnodd aelod a oedd modd mynd yn ôl i ddefnyddio'r hen drefn. Mewn ymateb eglurodd y Swyddog Monitro mai cyfrifoldeb y Cabinet yw'r drefn gwynion a'r Cabinet sydd wedi mabwysiadu'r drefn yma ar sail model cenedlaethol. Hon yw'r drefn gwynion gorfforaethol. Mae'r drefn yn sicrhau bod problem sydd angen mwy o sylw yn cael sylw a bod y drefn yn un syml sy'n pwyso ar adrannau i gael datrysiad.

Awgrymodd aelod bod cais yn mynd i'r Cabinet i ail edrych ar y drefn o safbwynt cwynion iaith. Adroddodd bod cwynion iaith yn wahanol i bob cwyn arall ac o ystyried bod yr iaith uwchlaw bob dim arall dylid ymdrin â'r cwynion iaith yn wahanol oherwydd y statws a roddir i'r iaith.

Awgrymodd y Swyddog Monitro bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad o dan y drefn newydd gyntaf a gweld sut mae'n cyrraedd gofynion yn hytrach na mynd am gyfundrefn gyhoeddus ar wahân ar gyfer iaith. Bydd adroddiad blynyddol cyhoeddus yn cael ei baratoi. Bydd dwy gyfundrefn gyhoeddus yn creu dryswch i'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn derbyn adroddiad ar y drefn newydd i weld sut mae'n gweithio.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR WEITHREDIAD Y SAFONAU IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg. Manylwyd ar y cynnwys gan y Swyddog Datblygu Iaith. Eglurodd eu bod wedi penodi swyddog i'r swydd wag - Swyddog Dysgu a Datblygu a fydd yn helpu hefo datblygu sgiliau staff.

Croesawyd y datblygiadau fel y pencampwr iaith hamdden a'r awgrymiadau yn deillio o'r Ymchwiliad Gwelededd yr Iaith Gymraeg sydd yn berthnasol i Safonau Iaith 35 a 36 – Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus.

Nodwyd bod e fodiwl wedi'i ddatblygu yn unol â gofynion y safonau iaith ac mae ar gael ar gyfer pob aelod o staff. Adroddwyd ar y Cynllun Pencampwyr Iaith a'r bwriad i'w ledaenu ar draws y Cyngor. Nodwyd bod y gwaith a wnaed hyd yma yn yr adran Ymgynghoriaeth eisoes yn dangos gwahaniaeth yn y modd y mae staff yn cyfathrebu gyda'i gilydd ac mewn cyfarfodydd.

Gofynnodd aelod a oedd yna rôl i'r pwyllgor i geisio ymestyn beth mae'n wneud, e.e. gweithio hefo'r sector breifat i wella'r ddarpariaeth. Er enghraifft, ymestyn allan o waliau'r sir a gweld sut y gellir dylanwadu yn ehangach ar y defnydd o'r Gymraeg.

DRAFT

Mewn ymateb awgrymodd y Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg bod y pwyllgor yn derbyn cyflwyniad ar 'Hunaniaith' sef y fenter iaith yng Ngwynedd sydd a'r rôl o hyrwyddo'r Gymraeg y tu allan i furiau Gwynedd. Adroddwyd bod y Cyngor ei hun hefyd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau cyd-ddealltwriaeth. Bydd y Cyngor yn llunio Strategaeth Iaith newydd rhwng nawr a mis Mawrth.

Awgrymodd aelod ymestyn y defnydd o gortynnau gwddf / bathodynnau iaith i aelodau yn ogystal â'r staff.

**PENDERFYNWYD**

- **derbyn yr adroddiad**
- **bod y pwyllgor yn derbyn cyflwyniad ar 'Hunaniaith' yn ei gyfarfod nesaf.**

**10. GWIREDDU'R UCHELGAIS – YMATEB I STRATEGAETH GYMRAEG NEWYDD LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol gan yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg. Manylwyd ar y cynnwys gan y Rheolwr Gwasanaethau Iaith. . Bydd Strategaeth derfynol Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi ar 11 Gorffennaf 2017.

Nodwyd pryder bod cymaint o ffocws ar addysg fel yr unig gyfrwng i gyrraedd y nod.

Tynnwyd sylw'r aelodau nad oes son am gadarnleoedd yr iaith, yr elfen o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned.

Nodwyd pwysigrwydd gosod cerrig milltir sydd yn cael ei gyfarch yn yr adroddiad, ond yn fater anodd ei fesur. Defnyddir y system addysg yn aml ond bydd yn her a rhaid meddwl am ffyrdd soffistigedig i fesur.

Awgrymodd aelod mai'r unig ffordd i wireddu'r uchelgais yw drwy agor mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae llawer o deuluoedd lle nad yw'r rhieni yn siarad Cymraeg felly dim Cymraeg ar yr aelwyd.

Adroddodd aelod bod tri chwarter y siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynhyrchu gan y system addysg a chwarter gan y cartref. Os am wireddu'r uchelgais, awgrymwyd mai ffordd ymlaen yw drwy ymestyn y system addysg, yn arbennig yn y De Ddwyrain. Dylai'r Llywodraeth gefnogi'r Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu'r gofynion yn barod a'r awdurdodau sydd yn cymryd camau i ymestyn y sector addysg Gymraeg.

Mynegwyd siom bod yr adroddiad yn crybwyll defnyddio'r system addysg yn unig i wireddu'r uchelgais ac awgrymwyd cynnwys y maes cynllunio yn ogystal. Yn aml mae'n faes sy'n cael effaith ar yr iaith. Cytunodd aelod a'r sylw hwn ac yn enwedig yn sgil penderfyniad Leslie Griffiths, Aelod Cabinet Llywodraeth Cymru yn caniatáu i adeiladwyr apelio eto ar ôl i Wynedd droi cais i lawr ddwywaith ynglyn a'r tir ym Mhenrhosgarnedd.

Awgrymodd aelod bod lle i edrych ar rôl Hunaniaeth o ran y pwyslais ar ddatblygu'r Gymraeg yn gymunedol. Adroddwyd bod Mentrau Iaith gyda rôl ganolog yng nghymunedau mewn llefydd eraill a bod lle i edrych ar rôl y fenter iIaith yn y sir yma.

Adroddodd yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg bod y Cyngor wedi pwysleisio'n glir nad trwy un cyfrwng, sef y system addysg, mae gwireddu'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg.

DRAFT

Adroddodd aelod bod rhaid edrych ar ôl cwmnïau gwledig a bod hybu'r economi yn hanfodol i gadw siaradwyr Cymraeg yma.

Adroddodd aelod bod y nod yn iawn, ond bod y Llywodraeth a'r pwyllgor sydd wedi ffurfio'r Strategaeth yn hesb o syniadau ac yn troi at addysg fel petai hynny'n allwedd i bopeth.
Adroddwyd bod aelodau'r pwyllgor i gyd yn dod o'r De Ddwyrain.

Mewn ymateb i'r sylw ar aelodaeth y pwyllgor, adroddodd yr Aelod Cabinet – Y Gymraeg bod dim cynrychiolaeth o'r Gogledd Orllewin a bron dim o'r Gogledd yn ei gyfanrwydd. Nodwyd ei bwriad i godi'r mater hefo Cadeirydd y pwyllgor ac i geisio cynrychiolaeth deg o'r siaradwyr ar draws Cymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am hanner dydd.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 Hydref 2017** |
| **TEITL:** | **Ymgynghoriad Papur Gwyn – Taro'r Cydbwysedd Iawn** |
| **AWDUR:** | **Mair Rowlands** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno ymateb drafft yr Uned Iaith i ymgynghoriad y Llywodraeth ar eu Papur Gwyn: Taro'r Cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg |

## 1. Cefndir

1.1 Ymgynghoriad yw hwn gan y Llywodraeth i ystyried newidiadau i Fesur y Gymraeg, a'r modd y caiff y Safonau eu gosod a'u gweithredu.

1.2 Bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben 31 Hydref 2017

1.3 Cafwyd galwad am dystiolaeth yn gynharach yn 2017, oedd yn gofyn am brofiadau yr awdurdodau lleol yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithredu'r Safonau Iaith. Anfonwyd ymateb gan yr Uned iaith yn mynegi ein pryderon a'n rhwystredigaethau gyda'r system bresennol. Gellir gweld copi o'n ymateb fel atodiad 1 a chrynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd gan y Llywodraeth yn atodiad 2.

1.4 Cafodd themâu cyffredin eu hadnabod yn yr alwad am dystiolaeth, gyda nifer o gyrff yn tynnu sylw at broblemau gyda'r drefn bresennol o gyflwyno cwynion, yn ogystal a'r baich gweinyddol a biwrocrataidd sydd ynghlwm a'r Safonau.

1.5 Mae'r Papur Gwyn hwn yn ymdrech i fynd i'r afael a rhai o'r problemau a phryderon a fynegwyd ac yn cynnig newidiadau ar gyfer Mesur y Gymraeg .

1.6 Mae'r ddogfen trosolwg wedi ei chynnwys fel Atodiad. Gellir gweld y dogfennau llawn

Rydym wedi rhannu'r ddogfen trosolwg, ac fe rown grynodeb o'r canfyddiadau, a'n sylwadau yn yr adroddiad hwn. Gallwch weld y ddogfen ymgynghori llawn drwy ddilyn y linc isod.:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-y-gymraeg-papur-gwyn

## 2. Crynodeb o amcan y papur a'n hymateb:

2.1 Ceisio symud oddi wrth y system fiwrocrataidd, trwm tuag at drefn sydd yn hybu a hwyluso, ac yn annog newid drwy fagu ewyllys da yn hytrach na gorfodi.

2.2 Mwy o bwyslais ar Gynllunio Ieithyddol

2.3 Symud y cyfrifoldeb o "osod" safonau o'r Comisiynydd (neu pa bynnag gorff fydd yn bodoli) i'r Llywodraeth ei hun.

2.4 Gofyn i gyrff ddelio efo cwynion yn uniongyrchol eu hunain cyn iddynt gael eu cyfeirio at y Comisiynydd. Dim ond mewn achosion difrifol y bydd y Comisiynydd yn ymchwilio.

2.5 Rydym yn croesawu'r newid agwedd yma, ac am weld trefn y safonau yn cael ei symleiddio, ond mae gennym hefyd bryderon bod unrhyw newid yn mynd i gymhlethu'r darlun. Mae hefyd angen sicrhau atebolrwydd y Llywodraeth ac nad ydynt yn diosg eu cyfrifoldebau drwy symud swyddogaethau presennol i gorff arall.

2.6 Croesawn yn arbennig y newid yn y drefn gwynion, fydd yn ein galluogi i ddelio efo materion yn uniongyrchol yn hytrach na'r drefn gudd a chymhleth bresennol. Serch hynny, mae gennym bryderon a fydd cadw cydbwysedd yn bosib rhwng y swyddogaethau hybu newydd a'r angen i ymchwilio a chynghori ar y safonau.

## 3. Camau Nesaf:

Bydd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Iaith yn cael eu hymgorffori yn yr ymateb a hwnnw yn cael ei anfon erbyn Hydref 31, yn unol a'r amserlen.

## 4. Argymhellion

Gofynnir i'r aelodau ystyried yr ymateb drafft a chynnig unrhyw sylwadau neu ychwanegiadau.

Rhif: WG32353

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori ar y Papur Gwyn

# Taro’r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

## Trosolwg

Dyddiad cyhoeddi: 9 Awst 2017
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Hydref 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

# Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Papur Gwyn yn un o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i wneud deddfau newydd. Mae'r Trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r cynigion allweddol yn ein Papur Gwyn ar gyfer Bil y Gymraeg.<br><br>Mae'r penawdau yn y Trosolwg hwn yn dilyn y penawdau yn ein Papur Gwyn. Os ydych am ddeall yn well sut y daethon ni i'n casgliadau ac ystyried y cwestiynau ymgynghori rydym yn eu gofyn, dylech droi at yr adran gyfatebol yn ein Papur Gwyn. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Hydref 2017** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r Papur Gwyn llawn '*Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg'* ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau<br><br>*Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg, Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion* llyw.cymru/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf<br><br>*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* gov.wales/docs/dcells/publications/170711-welsh-language-strategy-cy.pdf |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm Bil y Gymraeg<br>Is-adran y Gymraeg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost:<br>UnedIaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru<br>Ffôn: 0300 0604400 |

**Diogelu data**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg** | **2** |
| **Crynodeb o gynigion y Papur Gwyn hwn** | **5** |
| **Rhan 1: Hybu'r Gymraeg** | **6** |
| **Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd** | **9** |
| **Rhan 3: Safonau'r Gymraeg** | **12** |
| **Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg** | **18** |
| **Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion** | **19** |
| **Y camau nesaf** | **20** |

# Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

1. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r etifeddiaeth unigryw sy'n ein diffinio ni fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais yw bod miliwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg erbyn 2050.

2. Dymunwn i'r Gymraeg fod yn rhan o wead bywyd beunyddiol yng Nghymru, yn cael ei defnyddio yn gyffredin yn y cartref, yn y gymuned, ac yn y gwaith. Dymunwn fod pawb yn gwerthfawrogi'r Gymraeg am ei chyfraniad at ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru, ac am ei rôl yn yr economi. Rydym wedi amlinellu'r camau mae'n rhaid i ni eu cymryd i gyflawni'r uchelgais hwn mewn dogfen o'r enw Cymraeg 2050.[1]

## Pam mae angen inni newid y gyfraith

3. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen,[2] gwnaethom ymrwymiad i adolygu deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae angen i ni wneud hyn er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gyfredol ac yn cefnogi ein huchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4. Wrth wneud cynigion i newid y gyfraith, rydym wedi gosod yr amcanion canlynol:

- taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu'r iaith a rheoleiddio dyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg;
- lleihau biwrocratiaeth a sicrhau gwerth am arian.

## Taro'r cydbwysedd iawn rhwng hybu a rheoleiddio

5. Mae gan bawb yng Nghymru hawliau penodol i gael gwasanaethau cyhoeddus yn Gymraeg. Mae Safonau'r Gymraeg yn ddyletswyddau cyfreithiol ar gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac yn y blaen) sy'n rhoi gofynion arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn y Gymraeg. Yn y papur hwn, wrth ddefnyddio'r gair 'rheoleiddio' rydym yn golygu gosod Safonau ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw. Mae Comisiynydd y Gymraeg ('y Comisiynydd') yn gyfrifol ar hyn o bryd am sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.

6. Yn y Trosolwg hwn, wrth ddefnyddio'r gair 'hybu' rydym yn golygu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae hybu, yn syml iawn, yn golygu gweithio i gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd a llawer o gyrff eraill yn ymwneud â hybu mewn gwahanol ffyrdd.

7. Ar hyn o bryd, credwn fod gormod o bwyslais ar reoleiddio, a diffyg pwyslais ar hybu.

### Y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg

8. Mae llawer o waith i'w wneud i newid ymddygiad pobl a'u hannog i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae'r ychydig ddata sydd gennym yn awgrymu bod nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn isel iawn.

[1] http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy
[2] http://llyw.cymru/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy

9. Un rheswm yw mai dim ond yn y 25 mlynedd diwethaf fwy neu lai y mae gwasanaethau wedi bod ar gael yn y Gymraeg ac nid oes digon wedi'i wneud i'w hybu.

**Hybu**

10. Mae llawer o gyrff gwahanol o faint gwahanol yn hybu'r Gymraeg. Credwn fod y gwaith hwn yn bwysig er mwyn cyflawni Cymraeg 2050. Rhaid sicrhau bod y gwaith hwn wedi'i gydlynu er mwyn cael yr effaith fwyaf bosib.

**Cefnogaeth ariannol**

11. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i gyrff sy'n gwneud gwaith i ddatblygu defnydd y Gymraeg yng Nghymru. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys y Mentrau Iaith, Clybiau Ffermwyr Ifanc yng Nghymru, eisteddfodau lleol, papurau bro, yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru a'r Mudiad Meithrin.

**Ymgyrchoedd marchnata a'r cyfryngau**

12. Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu ymgyrchoedd marchnata ac ymgyrchoedd drwy'r cyfryngau ar draws Cymru, fel yr ymgyrch Cymraeg i Blant sy'n annog pobl i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg.

13. Mae'r Comisiynydd a rhai cyrff eraill hefyd yn gwneud gwaith marchnata a chyfryngol i hybu'r Gymraeg. Mae'n bwysig bod y negeseuon yn gyson fel bod yr ymgyrchoedd mor effeithiol â phosib.

**Cefnogi busnesau**

14. Mae cefnogi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn flaenoriaeth o ran hybu'r Gymraeg. Mae nifer o gyrff – Llywodraeth Cymru, y Comisiynydd a'r Mentrau Iaith, er enghraifft – yn gweithio gyda busnesau bach a chanolig eu maint, yn ogystal â chwmnïau mawr.

**Gwybod ble i droi am gymorth**

15. Rhaid i ni ei gwneud hi'n hawdd i unrhyw un sydd eisiau gwybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg wybod i ble i droi. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir i ble y dylai rhywun fynd i gael cymorth.

**Cynllunio ieithyddol**

16. Mae cynllunio ieithyddol yn rhan hanfodol o'n gwaith i hybu'r Gymraeg. Yn y cyd-destun hwn, mae cynllunio ieithyddol yn golygu deall beth yw'r camau mwyaf effeithiol y gall corff eu cymryd er mwyn annog pobl i ddysgu a defnyddio'r iaith. Er enghraifft, gall hyn olygu cymryd camau bwriadol i gynnal cymunedau Cymraeg, neu gynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd, ymysg pobl ifanc y tu allan i sefydliadau addysgol, neu gan fusnesau lleol.

17. Mae cynllunio ieithyddol da yn golygu y gallwn gymryd penderfyniadau mwy craff a mwy effeithiol am sut i ddefnyddio ein hadnoddau. Er mwyn cyrraedd ein huchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg, bydd rhaid i bob corff cyhoeddus ddatblygu sgiliau cynllunio ieithyddol gwell.

**Rhwydweithiau ymarferwyr a rhannu arferion da**

18. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth heriol ar gyfer y Gymraeg, mae angen rhwydweithiau cryf sy'n dod â phobl sy'n hybu'r Gymraeg ynghyd er mwyn datblygu eu gwybodaeth a rhannu arferion da.

**Newid ymddygiad**

19. Er mwyn sicrhau bod mwy o bobl yn dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg, rhaid i ni ddeall yn well beth fydd yn newid eu dewis ieithyddol. Mae’r prifysgolion yn gwneud gwaith pwysig yn y maes hwn a gallwn wneud mwy i rannu arferion da.

**Heriau’r dyfodol**

20. Mae’r byd yn newid yn gyflym a rhaid i ni sicrhau bod y ffordd rydym yn hybu’r iaith Gymraeg yn gallu addasu i gyfleon a heriau newydd. Credwn fod angen:

- pennu blaenoriaethau ac amcanion clir ar gyfer rhaglen waith i hybu'r Gymraeg;
- cydgysylltu ac integreiddio gwaith lleol a chenedlaethol i hybu'r iaith;
- darparu cymorth ymarferol i gyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector;
- eirioli ar ran yr iaith;
- darparu 'siop un stop' ar gyfer y cyhoedd;
- arwain newid ar draws sawl sefydliad;
- lleihau dyblygu a sicrhau gwerth am arian.

## Lleihau biwrocratiaeth

21. Mae’r Safonau yn gam mawr ymlaen o ran creu hawliau i bobl gael gwasanaethau yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae’r Safonau yn niferus a chymhleth ac mae’r ffordd y gwneir ac y gorfodir y Safonau yn fiwrocrataidd ac yn cymryd amser hir.

22. Mae perygl y gall y sefyllfa hon danseilio ewyllys da tuag at yr iaith a dargyfeirio adnoddau a staff oddi wrth y brif dasg o wella gwasanaethau Cymraeg. Rhaid i ni feddwl am symleiddio’r ffordd mae’r system yn gweithio.

## Tystiolaeth gan gyrff sy’n ddarostyngedig i’r Safonau

23. Ynghynt yn 2017, gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrff sy’n ddarostyngedig i’r Safonau am eu profiad o’r system. Mae eu tystiolaeth wedi bod o gymorth i ni lunio cynigion yn ein Papur Gwyn. Gallwch ddarllen crynodeb o’r ymatebion mewn adroddiad ar ein gwefan.[3]

[3] http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?skip=1&lang=cy

## Crynodeb o gynigion y Papur Gwyn hwn

24. Er mwyn helpu darllenwyr i ddeall y darlun llawn, dyma grynodeb o’r prif gynigion. Mae’r rhesymeg y tu ôl i’r cynigion hynny, y prif faterion a’r opsiynau a ystyriwyd gennym, wedi’u nodi ym mhrif gorff y Papur Gwyn.

i. Dylid sefydlu un prif gorff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.

ii. Y corff hwnnw fydd Comisiwn y Gymraeg ac felly dylid diddymu Comisiynydd y Gymraeg.

iii. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am strategaeth genedlaethol y Gymraeg, polisi cenedlaethol, rheoli a chyllido rhai cyrff sydd o arwyddocâd cenedlaethol, a rhai meysydd gwaith penodedig. Dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r gyllideb a'r adnoddau ar gyfer gwaith penodedig arall y mae'n ei wneud ar hyn o bryd i hybu'r Gymraeg i Gomisiwn y Gymraeg.

iv. Dylid cadw cysyniad Safonau'r Gymraeg.

v. Dim ond i wasanaethau y dylai'r Safonau fod yn berthnasol. Dylid galw dyletswyddau corfforaethol eraill sy'n rhan o system y Safonau ar hyn o bryd, nad ydynt yn creu hawliau gorfodadwy ar gyfer unigolion, yn 'ddyletswyddau cynllunio ieithyddol' a dylent fod yn ddyletswyddau statudol ar gyrff a nodir yn y ddeddfwriaeth.

vi. Dylid adolygu'r Safonau y mae gofyn i gyrff gydymffurfio â nhw o bryd i'w gilydd a, lle bo'n briodol, dylid gosod Safonau ychwanegol ar gyrff neu gael gwared ag eithriadau a ganiateir i gyrff ar hyn o bryd.

vii. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol am greu a gosod Safonau ar gyrff, ac am gyhoeddi canllawiau a chodau ymarfer. Dylai'r Comisiwn fod yn gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau.

viii. Dylai fod yn ofynnol i'r cyrff eu hunain ddelio â chwynion mewn perthynas â'r Safonau yn y lle cyntaf. Dim ond mewn achosion difrifol y dylai'r Comisiwn ymchwilio i gwynion.

ix. Dylid cadw Tribiwnlys y Gymraeg. Dylai cyrff allu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn bwriad gan Lywodraeth Cymru i osod Safon arnynt.

x. Dylid gallu cymhwyso'r Safonau i unrhyw gorff, cyn belled â bod y gofynion yn rhesymol ac yn gymesur ac o fewn pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (‘y Cynulliad’) (sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

# Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

## Rôl Llywodraeth Cymru

25. Mae materion penodol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gyfrifol amdanynt, sef:

- paratoi strategaeth genedlaethol o dan a.78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (*Cymraeg 2050* ar hyn o bryd) a chynllun i weithredu'r strategaeth;
- sefydlu trefniadau ymarferol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol;
- gosod polisïau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg;
- cynnig a chreu deddfwriaeth, gyda chydsyniad y Cynulliad;
- darparu adnoddau i gefnogi'r Gymraeg;
- monitro perfformiad cyrff sy'n helpu i weithredu'r strategaeth, ac adolygu'r strategaeth o bryd i'w gilydd;
- cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol â gwledydd ac ardaloedd eraill sydd â phryderon o ran eu hieithoedd lleiafrifol.

26. Mae meysydd eraill ble mae Llywodraeth Cymru yn gwneud polisi sy'n hanfodol i'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau cenedlaethol ar gyfer addysg, y blynyddoedd cynnar, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, cynllunio a llywodraeth leol.

27. Mae statws ac adnoddau Llywodraeth Cymru yn fuddiol i hybu'r Gymraeg mewn rhai meysydd penodol a dylai Llywodraeth Cymru barhau i arwain yn y meysydd hyn. Gall y meysydd hyn newid ymhen amser a gall fod yn briodol i gyrff eraill arwain yn rhai o'r meysydd hyn yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, credwn eu bod yn cynnwys:

- **Datblygu rôl y Gymraeg mewn technoleg ddigidol**, e.e. cyfieithu awtomatig ac adnabod llais.

- **Goruchwylio corpws y Gymraeg,** e.e. cofnodion o sut y defnyddir yr iaith, geiriaduron a gramadeg, a safoni.

- **Ariannu a rheoli perthynas gyda sefydliadau cenedlaethol allweddol**, e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Urdd, y Mudiad Meithrin, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- **Ymchwil,** e.e. deall a yw ein polisïau ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol.

28. Yn y papur hwn, rydym yn cyfeirio at y swyddogaethau hybu uchod fel 'swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg'.

## Adnoddau eraill Llywodraeth Cymru

29. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyllido a rheoli ystod o waith hybu arall. Eleni, rydym hefyd wedi dyrannu £2 miliwn ychwanegol i wella'r ymdrechion i hybu'r Gymraeg. Dylem ystyried ai Llywodraeth Cymru yw'r corff gorau i barhau gyda'r gwaith hwn.

30. Mae Tabl 1 yn nodi'r cyllidebau a'r gweithgareddau rydym yn cyfeirio atynt fel 'swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg' yn y Papur Gwyn. Mae Tabl 1 hefyd yn dangos cyllideb y Comisiynydd, a sefydlwyd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Dim ond amcangyfrif yw'r cyllidebau a'r gweithgareddau yn Nhabl 1. Gallent newid ac maent yn destun amodau pwysig sy'n cael eu hamlinellu yn gyflawn yn y Papur Gwyn.

**Tabl 1: Swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg**

| Sefydliad | Cyllideb 2017-18 | Enghreifftiau o waith |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | £2.7m a<br>£2m o gyllid ychwanegol ar gyfer 2017-18 | • Grantiau i sefydliadau i hybu'r Gymraeg:<br>— Mentrau Iaith Cymru<br>— 20 Menter Iaith<br>— Merched y Wawr<br>— Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru<br>— Cymdeithas Eisteddfodau Cymru<br>— Papurau bro<br>— Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru<br>• Hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith busnesau<br>• Ymgyrchoedd yn y cyfryngau ac ymgyrchoedd marchnata<br>• Sefydlu llinell gymorth i ddarparu gwybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg |
| Comisiynydd y Gymraeg | £3.051m | • Gosod Safonau ar gyrff, a monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau hynny<br>• Monitro'r cynlluniau iaith presennol<br>• Gweithio gyda busnesau canolig a mawr i greu polisïau Cymraeg gwirfoddol<br>• Paratoi canllawiau ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion penodol (megis canllaw technoleg Gymraeg)<br>• Gwneud gwaith ymchwil er mwyn creu sylfaen dystiolaeth i ategu penderfyniadau i hybu'r Gymraeg. |
| **Cyfanswm** | £7.751m | |

## Opsiynau

31. Ym mharagraff 19 amlinellwyd y sialensiau rydym yn eu hwynebu. Rydym wedi ystyried pedwar opsiwn i gryfhau'r trefniadau i hybu'r Gymraeg er mwyn cwrdd â'r sialensiau hyn. Mae'r opsiynau yn seiliedig ar y disgwyliad y bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am osod Safonau ac ymgymryd â swyddogaethau'r Llywodraeth i hybu'r Gymraeg a amlinellir ym mharagraff 24-27 uchod.

**Opsiwn 1: dim newid**

**Opsiwn 2: sefydlu Asiantaeth Weithredol Llywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg**
Byddai hyn yn golygu sefydlu Asiantaeth o fewn Llywodraeth Cymru i ymgymryd â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg, fel y mae Croeso Cymru yn hybu twristiaeth. Byddai'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.

**Opsiwn 3: Sefydlu corff newydd ar wahân i Lywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg**
Byddai Opsiwn 3 yn golygu creu corff newydd annibynnol i ymgymryd â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg. Byddai'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.

**Opsiwn 4: un corff i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ac am sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau**
O dan Opsiwn 4, byddai un corff yn gyfrifol am ymgymryd â'r swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg a sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.

## Pwyso a mesur yr opsiynau

32. Rydym wedi cymharu manteision yr opsiynau gwahanol yn ôl eglurder pob opsiwn, y cyfle i waith hybu helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i fodloni'r Safonau, a gwerth am arian. Credwn mai Opsiwn 4 yw'r opsiwn gorau i'n galluogi ni i wynebu heriau'r dyfodol.

## Casgliadau

33. Byddai Opsiwn 4 yn creu un corff gydag ystod eang o bwerau, adnoddau sylweddol a chanolbwynt ar gyfer datblygu ieithyddol yng Nghymru. Byddai'n haws i'r cyhoedd, busnesau a sefydliadau eraill wybod i ble i fynd am gyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Byddai un corff yn gallu helpu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus i oresgyn yr heriau o ddatblygu gweithlu dwyieithog a darparu gwasanaethau Cymraeg. Credwn hefyd mai dyma fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian.

# Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

## Llywodraethiant

34. Byddai'r corff unigol rydym wedi ei gynnig yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni Cymraeg 2050. Rhaid iddo gael ei redeg yn dda a bod yn atebol. Byddai'n rhaid iddo ennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, bod yn agored a thryloyw, a chynnwys pobl yn ei benderfyniadau.

35. Credwn y gallwn ni gyflawni hyn orau os arweinir y corff gan grŵp o bobl sydd â chymysgedd o wybodaeth, profiad a sgiliau, yn hytrach na chan un person.

## Atebolrwydd

36. Byddai'r corff yn gyfrifol am symiau sylweddol o arian cyhoeddus. I sicrhau bod y corff yn gwario arian cyhoeddus yn ddoeth ac yn perfformio'n dda, credwn y dylid gwahanu'r dyletswyddau rhwng y grŵp o bobl sy'n gosod amcanion y corff (swyddogaethau strategol), a phrif weithredwr sy'n atebol am sut y defnyddir staff ac adnoddau'r corff i gyflawni'r amcanion hynny (swyddogaethau gweithredol).

37. Dylai fod gan y corff reolau am sut y mae'n gwneud penderfyniadau (a elwir yn fframwaith llywodraethu corfforaethol), a phwyllgor archwilio i sicrhau ei fod yn gwario arian yn ddarbodus a bod ei reolaethau mewnol yn gweithio'n gywir.

## Gofynion cyffredinol

38. Waeth pa opsiwn sy'n cael ei ddewis, dylai'r gofynion canlynol weithredu ar y corff.

   i. Dylai'r corff gael cynllun strategol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r cynllun yn amlinellu amcanion y corff a dangos sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni *Cymraeg 2050*.
   ii. Dylai gynhyrchu adroddiad bob blwyddyn yn amlinellu yr hyn y mae wedi'i gyflawni.
   iii. Dylai baratoi polisi am y modd y bydd yn sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.
   iv. Dylai ddatgan bob blwyddyn faint o gyllideb sydd ei hangen arno i gyflawni ei amcanion. Dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrth y Cynulliad faint o gyllideb y mae'n ei dyrannu i'r corff.
   v. Dylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei amddiffyn.
   vi. Dylai Llywodraeth Cymru fedru cyfarwyddo'r corff, ac eithrio mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth cyrff â'r Safonau neu sut y mae'n amddiffyn rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
   vii. Dylai'r corff ymgynghori â phobl am ei benderfyniadau a'i bolisïau allweddol. Ar ôl cynnal ymchwiliad neu gymryd camau gorfodi, dylai gyhoeddi'r rhesymau am ei benderfyniadau.

## Opsiynau

39. Rydym wedi ystyried gwahanol drefniadau i'r corff. Credwn fod tri opsiwn i'w hystyried.

**Opsiwn 1: trosglwyddo adnoddau ychwanegol ar gyfer hybu i'r Comisiynydd o fewn trefniadau llywodraethiant presennol y Comisiynydd**

**Opsiwn 2: Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu**
O dan Opsiwn 2 byddai un person yn parhau i fod yn Gomisiynydd y Gymraeg. Byddai hefyd Fwrdd Llywodraethu gyda rôl i gymeradwyo cynllun strategol, polisi gorfodi a fframwaith llywodraethu corfforaethol y Comisiynydd.

**Opsiwn 3: Comisiwn y Gymraeg**
O dan Opsiwn 3, byddem yn sefydlu Comisiwn y Gymraeg ('y Comisiwn'). Byddai Llywodraeth Cymru yn penodi cadeirydd a nifer o aelodau sydd â chymysgedd o brofiad a sgiliau o dan weithdrefn penodiadau cyhoeddus. Byddai aelodau a chadeirydd y Comisiwn yn gyfrifol ar y cyd am osod cynllun strategol y corff, y polisi gorfodi a'r fframwaith llywodraethu corfforaethol.

Byddai'r Comisiwn yn penodi prif weithredwr a fyddai'n gyfrifol am gyflawni cynllun strategol y Comisiwn a sicrhau bod y corff yn cael ei redeg yn dda.

## Pwyso a mesur yr opsiynau

40. Rydym wedi ystyried yr opsiynau yng ngoleuni'r ystyriaethau llywodraethu ac atebolrwydd a nodwyd ar ddechrau'r rhan yma. Nid yw Opsiwn 1 yn cwrdd â'r gofynion bod grŵp o bobl yn helpu i arwain y corff a bod gwahanu rhwng swyddogaethau strategol a gweithredol y corff. Mae Opsiwn 2 yn cwrdd â'r ddau ofyniad yn rhannol, ac mae Opsiwn 3 yn cwrdd â'r gofynion yn llawn.

## Casgliadau

41. Yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw Opsiwn 3, sef sefydlu Comisiwn y Gymraeg i fod yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg (y swyddogaethau cyffredinol i hybu'r Gymraeg) a sicrhau bod cyrff yn cydymffurfio â'r Safonau.

## Trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau

42. Os awn ni ati i sefydlu Comisiwn, bydd angen ystyried yn ofalus pa effaith allai fod ar staff y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru ac a fydd angen trosglwyddo staff. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn amddiffyn eu cyflogaeth a'u pensiynau, yn ogystal â materion fel trosglwyddo eiddo a rhwymedigaethau. Nid ydym yn meddwl y bydd angen dileu unrhyw swyddi o ganlyniad i'n cynigion.

43. Byddwn yn ymgynghori'n llawn â chyflogeion a'r Undebau Llafur ar y materion hyn.

## Dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan a.78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

44. Rydym yn credu y dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer y Gymraeg a gwaith y Comisiwn arfaethedig. Amlinellir dyletswyddau Llywodraeth Cymru yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym o'r farn y byddai'n gwneud synnwyr da i ddod â'r dyletswyddau hyn i mewn i'r Bil y Gymraeg arfaethedig fel bod y cysylltiad yn eglur.

45. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn uchelgeisiol a hir dymor. Cymer amser i bolisi ieithyddol gael effaith ac fel arfer dim ond bob 10 mlynedd, yn y Cyfrifiad, y byddwn yn casglu data dibynadwy ar y niferoedd sy'n siarad Cymraeg. Credwn felly y dylid newid y dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru i wneud cynllun ac adrodd ar y strategaeth o bob blwyddyn i unwaith bob tymor Cynulliad, hynny yw, bob 5 mlynedd. Ni fyddai hyn yn atal y Cynulliad rhag dal Gweinidogion yn atebol ar unrhyw adeg drwy ei Bwyllgorau neu yn y Senedd.

## Cyngor Partneriaeth y Gymraeg

46. Dylai'r Comisiwn arfaethedig gynnwys arbenigedd sylweddol ym mhob agwedd o'r Gymraeg. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru allu elwa ar yr arbenigedd hwn drwy ofyn i'r Comisiwn am gyngor ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

47. Gan mai dyma a wna Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ar hyn o bryd, rydym yn cynnig diddymu'r Cyngor.

# Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

## Cyflwyniad

48. Mae'r Safonau yn newydd o hyd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod y Safonau yn gwneud gwahaniaeth i ansawdd a chysondeb gwasanaethau Cymraeg.

49. Ar yr un pryd, mae cyrff sy'n gweithio dan y Safonau yn dweud ei bod yn anodd eu deall, eu gweithredu a'u monitro.

## Beth ydyn ni'n ceisio'i gyflawni gyda'r ddeddfwriaeth?

50. Rydym yn ymrwymedig i system o safonau sy'n sicrhau:

a. cysondeb ac ansawdd yn y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg,
b. atebolrwydd y cyrff sy'n darparu'r gwasanaethau hynny,
c. camau gorfodi os na chaiff y Safonau eu bodloni.

51. Fodd bynnag, mae'r gorbwyslais presennol ar 'orfodi' wedi arwain at ymchwiliadau hir a chostus i achosion bychain iawn. Credwn y dylai'r pwyslais fod ar unioni'r sefyllfa pan fo pethau'n mynd o'i le, a sicrhau bod cyrff yn gwella.

52. Yr her yw bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn gyfyngedig, ac mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr mewn gwahanol rannau o'r wlad. Mae hyn yn golygu bod cyfyngiadau ar y nifer o bobl yng ngweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus sydd â sgiliau yn y Gymraeg (nid dim ond yn y meysydd sy'n dod o dan y Safonau), er enghraifft, mewn gwasanaethau cwsmeriaid, neu mewn proffesiynau megis addysgu, gwasanaethau cymdeithasol, meddygaeth, nyrsio, y gyfraith ac yn y blaen.

53. Gellir cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn, er enghraifft, drwy sicrhau bod mwy o blant yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg a bod mwy o fyfyrwyr yn cael gradd neu hyfforddiant proffesiynol yn y Gymraeg – mae ein strategaeth, Cymraeg 2050, yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cyflawni hyn – ond mae'r camau hyn yn cymryd amser i gael effaith.

54. Rhaid i unrhyw ddyletswyddau yr ydym yn eu gosod ar gyrff mewn gwahanol rannau o Gymru ac sy'n darparu gwahanol fathau o wasanaethau fod yn rhesymol a chymesur, gan gymryd i ystyriaeth yr heriau ymarferol mae'r cyrff yn eu hwynebu. O ganlyniad, rydym yn credu bod unrhyw ddeddfwriaeth a wnawn yn rhwym o fod yn gymhleth. Fan lleiaf, dylem geisio sicrhau bod unrhyw ddyletswyddau yr ydym yn eu gosod ar gyrff yn dod yn fwy unffurf dros amser wrth i gyrff ddod yn fwy galluog i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

## Y sefyllfa bresennol

55. Pwrpas y Safonau yw sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cyrraedd lefel benodol o ansawdd, cysondeb a hwylustod wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd ac i'w cyflogeion.

56. Fodd bynnag, y canlyniad yw nifer fawr o Safonau a all fod yn anodd i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus a'r cyhoedd eu deall. Mae'r rheoliadau sy'n nodi Safonau, yn cynnwys oddeutu 170-180 o safonau.

## Ymatebion i'r cais am dystiolaeth

57. Aethom ati i ofyn i gyrff sy'n gweithio o dan y Safonau am eu barn. Fe ddwedon nhw wrthym eu bod yn croesawu'r Safonau yn gyffredinol a'r modd mae'r system wedi codi proffil y Gymraeg o fewn eu sefydliadau. Fe wnaethon nhw hefyd ddweud wrthym:

- Mae'r Safonau yn gorgyffwrdd â'i gilydd ac mae cyrff yn ei chael hi'n anodd monitro a ydynt yn cydymffurfio â phob un o'r Safonau. Mae rhai wedi awgrymu y gellir uno Safonau tebyg.
- Mae'r nifer fawr o Safonau yn peri anhawster i'r cyhoedd ddeall beth yw eu hawliau.
- Er bod y Safonau yn fanwl, mae rhai sefyllfaoedd ble mae'n ansicr sut y dylid eu gweithredu, er enghraifft, pan fo dau gorff yn gweithio gyda'i gilydd.
- Nid yw'r system bresennol yn sicrhau bod cyrff yn gwella dros amser wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

## Opsiynau

58. Rydym wedi ystyried 5 opsiwn gwahanol i sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael.

59. Mae'r system bresennol yn gofyn bod y dyletswyddau yn rhesymol a chymesur i'r corff. Credwn fod hon yn egwyddor gadarn y dylem ei chadw.

**Opsiwn 1: dim newid**
O dan Opsiwn 1 byddai'r system bresennol yn parhau. Nid ydym yn credu bod hyn yn ymarferol.

**Opsiwn 2: diwygio'r system bresennol**
O dan Opsiwn 2, byddem yn cadw'r system bresennol ond yn gwneud gwelliannau:

a. Dileu neu ddiwygio Safonau nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at wella gwasanaethau.
b. Dileu neu ddiwygio Safonau sy'n ddrud i'w gweithredu ond sy'n arwain at ychydig iawn o fudd i'r cyhoedd.
c. Rhoi mwy o gyfleon i gyrff ddefnyddio crebwyll rhesymol heb danseilio yr egwyddor o Safonau gorfodadwy. Mae rhai Safonau yn caniatáu hyn eisoes, er enghraifft, drwy fynnu bod corff yn cynnal asesiad.
d. Cyhoeddi canllawiau i helpu cyrff i fodloni'r Safonau.

O bryd i'w gilydd, byddem hefyd yn adolygu'r Safonau y mae'n rhaid i gyrff gydymffurfio â nhw, er mwyn gweld a allent ddarparu mwy drwy'r Gymraeg.

**Opsiwn 3: set fechan o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol**
Byddai Opsiwn 3 yn wahanol i'r system bresennol o Safonau. Yn y system hon, byddai nifer fechan o Safonau mwy cyffredinol ym Mil y Gymraeg. Er mwyn i'r system

weithio, byddai'n rhaid i'r gyfraith ganiatáu eithriadau i'r Safonau fel eu bod yn rhesymol a chymesur i gyrff gwahanol.

**Opsiwn 4: cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar set fechan o Safonau mwy cyffredinol**
O dan Opsiwn 4, byddai'r Safonau ym Mil y Gymraeg. Byddai'n rhaid i bob corff baratoi cynllun o eithriadau a ddylai fod yn gymwys iddo. Byddai angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i bob cynllun eithriadau.

**Opsiwn 5: nodi hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol**
Byddai Opsiwn 5 yn rhoi hawliau cyfreithiol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg gyda chyrff yng Nghymru. Yn yr achos hwn, oherwydd y cyfyngiadau ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, rydym yn gwybod y byddai'n rhaid i ni wneud eithriadau i'r hawliau er mwyn i'r system weithio. Byddai'n rhaid teilwra'r eithriadau hyn i bob corff unigol.

## Pwyso a mesur yr opsiynau

60. Rydym wedi ystyried y gwahanol opsiynau ar sail p'un a ydynt yn rhoi mwy o eglurder (i'r cyhoedd ac i'r cyrff), p'un a ydynt yn arwain at welliannau mewn gwasanaethau Cymraeg, a chostau newid.

## Casgliadau

61. Yr opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yw Opsiwn 2, sef diwygio'r system bresennol o Safonau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod Opsiwn 2 yn cynnig system effeithiol sy'n gorfodi cyrff i wella yn raddol dros amser. Rydym yn credu hefyd bod yr opsiwn hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn barod gan Lywodraeth Cymru, y Comisiynydd a'r cyrff, gan sicrhau nad ydym yn gwastraffu'r adnoddau yr ydym eisoes wedi eu buddsoddi yn system y Safonau.

## Dosbarthiadau Safonau'r Gymraeg

62. Ar hyn o bryd mae gwahanol ddosbarthiadau o Safonau. Mae'r gyfraith yn cyfyngu ar ba Safonau y gellir eu gosod ar wahanol gyrff. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r gwahanol ddosbarthiadau a sut y maent yn effeithio ar wahanol fathau o gyrff:

**Tabl 2: Dosbarthiadau Safonau**

| Dosbarth | Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol | Y rhan fwyaf o gyrff datganoledig a heb eu datganoli | Y rhan fwyaf o ddarparwyr cyfleustodau a darparwyr gwasanaethau yn y sector preifat |
|---|---|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | ✓ | ✓ | ✓ |
| Llunio polisi | ✓ | ✓ | ✗ |
| Gweithredu | ✓ | ✓ | ✗ |
| Hybu | ✓ | ✗ | ✗ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cadw cofnodion | ✓ | ✓ | ✓ |

63. Dim ond rhai o'r Safonau sy'n ymwneud â gwasanaethau mae sefydliadau yn eu darparu'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac i'w staff. Mae llawer ohonynt yn ddyletswyddau corfforaethol ar sefydliadau, er enghraifft, i baratoi strategaeth i hybu'r Gymraeg ac asesu effaith penderfyniadau ar y Gymraeg.

64. Mae'r dyletswyddau corfforaethol hyn yn bwysig a dymunwn eu cadw. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylai'r dyletswyddau corfforaethol hyn fod yn Safonau a osodir mewn rheoliadau. Yn hytrach dylent fod yn ddyletswyddau cynllunio ieithyddol yn y Bil ei hun. Gallem ystyried cynnwys dyletswyddau eraill fel dyletswyddau cynllunio ieithyddol, fel y rhai sy'n ymwneud â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Rydym yn credu y dylai'r Safonau ymwneud â gwasanaethau y mae pobl yn eu derbyn yn unig.

65. Rôl y Comisiwn fyddai monitro sut mae cyrff yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cynllunio ieithyddol a darparu cefnogaeth ymarferol iddynt i'w helpu i wella.

## Gweithdrefnau ar gyfer gwneud, gosod, gweithredu a gorfodi Safonau

### Gwneud a gosod Safonau ar gyrff

66. Mae'r broses o wneud a gosod Safonau yn rhy fiwrocrataidd. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses – mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y rheoliadau Safonau ac mae'r Comisiynydd yn eu gosod ar gyrff.

67. Rydym yn cynnig symleiddio'r broses fel mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wneud a gosod Safonau ac mai'r Comisiwn sy'n gyfrifol am fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth.

68. Dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Safonau arfaethedig ac, fel yn ôl y trefniadau presennol, bod y Cynulliad yn eu cymeradwyo. Rydym hefyd yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyhoeddi codau ymarfer i helpu cyrff i gydymffurfio â'r Safonau.

### Gwneud a gosod Safonau ar sectorau

69. Mae rhai sectorau y gellir rhoi gofyniad arnynt ar hyn o bryd i gydymffurfio â Safonau yn cynnwys nifer fawr o gyrff bach. Er enghraifft, mae dros 730 o gynghorau cymuned yng Nghymru.

70. Byddai paratoi hysbysiadau cydymffurfio ar gyfer pob corff unigol yn dasg sylweddol. Rydym yn cynnig, felly, y gellid gosod Safonau yn uniongyrchol drwy reoliadau yn hytrach na thrwy hysbysiadau cydymffurfio unigol. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau pwysig yr ydym yn eu gofyn yn y Papur Gwyn.

71. Dylem bwysleisio nad yw'n fwriad gennym i ddod â chynghorau cymuned o dan y Safonau yn y dyfodol agos.

### Safonau i'w gosod ar Lywodraeth Cymru

72. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Safonau. Mae ein cynnig ym mharagraff 67 yn golygu y byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am osod Safonau arni hi ei hun. Rhaid i hynny ddigwydd mewn ffordd agored a thryloyw.

73. Un opsiwn yw bod gan y Cynulliad rôl i gymeradwyo'r Safonau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â nhw.

**Safonau yng nghyd-destun cydweithio rhwng cyrff a diwygio llywodraeth leol**

74. Mae nifer o gyrff wedi dweud wrthym eu bod yn ansicr sut mae'r Safonau yn gweithio yn ymarferol mewn sefyllfaoedd pan fo cyrff yn gweithio gyda'i gilydd, a sut y dylent weithio yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig i lywodraeth leol. Rydym yn ymrwymo i weithio gyda llywodraeth leol wrth i'n cynigion ddatblygu.

## Cwynion

### Cwynion i gyrff

75. Ar hyn o bryd, os oes rhywun am gwyno nad yw corff yn bodloni'r Safonau mewn rhyw ffordd, gall gwyno yn uniongyrchol i'r Comisiynydd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa ble mae rhywun am gwyno am unrhyw wasanaeth arall. Yn yr achosion hynny, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn mynnu bod y gŵyn yn cael ei thrin gan y corff yn gyntaf, fel bod gan y corff gyfle i gymryd cyfrifoldeb a chywiro'r broblem ei hun.

76. Dylai'r un egwyddor weithredu yn achos y Safonau a dylai cyrff fod â gweithdrefn gwynion sy'n cwrdd â gofynion penodol.

77. Rydym yn cynnig y dylai pobl gwyno yn uniongyrchol i'r corff yn y lle cyntaf. Os ydynt yn anhapus ar ddiwedd y broses honno, dylent allu mynd a'r gŵyn i'r Comisiwn.

### Cwynion i'r Comisiwn

78. Pan fo'r Comisiwn yn derbyn cwynion, dylai edrych ar benderfyniad y corff a sut y gwnaed y penderfyniad. Dylai'r Comisiwn ond weithredu pan fo penderfyniad y corff am y gŵyn yn afresymol neu pan nad yw'r corff wedi dilyn y weithdrefn gwynion yn gywir.

79. Os yw'r corff wedi gwneud rhywbeth yn anghywir ond nad yw'r Comisiwn yn credu ei fod yn ddifrifol, yna dylai'r Comisiwn allu rhoi cyngor neu ofyn i'r corff edrych ar ei benderfyniad eto. Gallai'r Comisiwn hefyd benderfynu gwneud dim.

80. Mewn achosion ble mae'r Comisiwn yn credu bod rhywbeth difrifol wedi mynd o'i le, yna dylai'r Comisiwn gychwyn ymchwiliad. Dylai'r Comisiwn hefyd allu penderfynu i gychwyn ymchwiliad mewn amgylchiadau eraill pan ddaw'n amlwg bod rhywbeth difrifol wedi mynd o'i le.

## Camau gorfodi yn dilyn ymchwiliad

81. O dan ein cynigion, byddai ffocws system y Safonau ar gywiro pethau a sicrhau nad yw'r un broblem yn digwydd eto.

82. Weithiau, mae gofyn am gamau llymach, er enghraifft, pan fo corff yn gwrthod unioni pethau. Felly, yn ogystal â'r camau gorfodi a amlinellir ym mharagraff 78, dylai'r Comisiwn hefyd allu cyfarwyddo'r corff i gymryd camau penodol, gosod dirwy (ar hyn o bryd, hyd at £5000) neu ofyn i lys orfodi'r corff i weithredu.

83. Yn ein barn ni, dylid cadw'r pwerau cryfach hyn at yr achosion mwyaf difrifol.

## Apêl i Dribiwnlys y Gymraeg

84. Ar hyn o bryd, mae Tribiwnlys y Gymraeg (‘y Tribiwnlys’) yn clywed apeliadau am benderfyniadau’r Comisiynydd. Mae hyn yn ei gwneud hi’n haws ac yn rhatach i’r cyhoedd a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus gael mynediad i gyfiawnder heb fynd drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys.

85. Credwn y dylid cadw’r Tribiwnlys i glywed apeliadau yn ymwneud â phenderfyniadau gorfodi’r Comisiwn ac apeliadau yn ymwneud â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru i osod Safonau ar gyrff. Credwn y dylai’r Tribiwnlys ond glywed apeliadau os oes siawns rhesymol y bydd yr apêl yn llwyddiannus neu os oes rheswm cryf arall pam fod y Tribiwnlys yn credu y dylai glywed yr apêl.

## Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

86. Ar hyn o bryd, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn cyfyngu ar y mathau o gyrff y gall fod yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Safonau.

87. Mae'r cyfyngiadau hyn yn bodoli oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar bwerau'r Cynulliad i wneud deddfau ar yr adeg pan basiwyd y Mesur. Mae pwerau'r Cynulliad wedi'u hymestyn ers hynny a chredwn, felly, y dylid diddymu'r cyfyngiadau presennol.

88. Effaith codi'r cyfyngiadau yn y Mesur fyddai y gellid gosod Safonau ar unrhyw gorff cyn belled â bod gwneud hynny o fewn pŵer y Cynulliad (sy'n cynnwys bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol). Mae hyn yn golygu y gellid o bosib osod Safonau ar fwy o fusnesau preifat nag a ganiateir o dan y Mesur ar hyn o bryd.

89. Yng ngoleuni'r ansicrwydd o gwmpas gweithredu'r penderfyniad i adael yr UE, byddai'n rhaid ystyried yn ofalus unrhyw estyniad o system y Safonau i fwy o fusnesau sector preifat a'r costau sy'n cyd-fynd â hynny.

90. Os cynhwysir mwy o fusnesau o fewn system y Safonau, rydym yn cynnig y dylid cyfyngu'r Safonau ar fusnesau preifat i wasanaethau a ddarperir ar gyfer cwsmeriaid, a hynny dim ond fel rhan o raglen ehangach o weithio gyda'r sector i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer dyfodiad y Safonau.

# Rhan 5: Asesu effaith ein cynigion

## Asesiadau effaith

91. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru asesu effaith ein cynigion. Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar y Gymraeg, Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

92. Mae copïau o'r asesiadau effaith ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

93. Byddwn yn cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol i nodi ac asesu costau a manteision ein cynigion terfynol ar yr un pryd â'n Bil y Gymraeg arfaethedig.

## Y camau nesaf

94. Mae’r Papur Gwyn yn cynnwys nifer o gwestiynau am ein cynigion. Byddwn yn defnyddio’r ymatebion i’r ymgynghoriad i lywio ein camau nesaf.

95. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i’r ymgynghoriad yw 31 Hydref 2017.

**Atodiad 2: Adroddiad Ymateb**

## Ymateb Cyngor Gwynedd i'r ddogfen ymgynghori

### Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

**Mae'r adran hon yn delio gyda rôl y Llywodraeth wrth hybu'r Gymraeg.**

**Mae'n amlinellu'r meysydd polisi cenedlaethol sy'n hanfodol i'r Gymraeg. Rhoddir sylw yma i'r polisi addysg ac i'r ddarpariaeth newydd 30 awr o ofal plant am ddim. Mae hyn wrth gwrs yn cyd-fynd gydag ymrwymiadau Cymraeg 2050, sydd yn rhoi llawer o bwys ar greu siaradwyr Cymraeg drwy'r system, addysg.**

**Yr hyn sydd ar goll yma yw unrhyw gyfeiriad pendant at feysydd megis cynllunio a'r economi. Mae pwynt 51 (t.15 y ddogfen lawn) yn cyfeirio at "meysydd polisi eraill sy'n cael effaith bwysig ar hyfywedd y Gymraeg mae cynllunio, llywodraeth leol, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd" ond nid yw'n manylu ar hyn.**

**Mae'r adran hon hefyd yn awgrymu newid yn y ffordd y mae cyrff fel y mentrau iaith, yr urdd a'r Ffermwyr Ifanc yn cael eu hariannu a'r llinellau atebolrwydd, yn ogystal ag amheuaeth am ffrydiau arian ychwanegol yn y maes hwn yn y dyfodol.**

**Mae'r trydedd rhan yr adran, "Opsiynau" yn amlinellu'r dewisiadau posib ar gyfer strwythur newydd a lle bydd y gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau yn gorwedd. Mae'r Llywodraeth yn ffafrio**

Ymateb drafft:

**Rôl Llywodraeth Cymru:**

Meysydd polisi cenedlaethol eraill sydd yn hanfodol i'r Gymraeg – sôn yma am addysg a'r meysydd a gaiff eu crybwyll yn y Strategaeth, ond dim sôn am feysydd eraill lle mae potensial i fod yn dylanwadu ar ddefnydd iaith. Yr un gwendid â sydd yn y strategaeth 2050 ei hun, sef dim sôn am gynllunio ag economi a thwristiaeth.

**Maes arweiniol ychwanegol**: Cynigiwn y gellir ychwanegu dylanwadu ar feysydd ymchwil gan Brifysgolion – annog astudiaethau ymarferol ar faterion a themâu sydd yn codi o'r Safonau ac a fyddai yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn defnyddio gwasanaethau. Maes technoleg yn arbennig o bwysig - cyn mynd i fuddsoddi ar gynnwys Cymraeg rhaid cael sail dystiolaeth ac ymchwil i ddangos sut mae pobl yn chwilio am yn defnyddio'r Gymraeg ar y we.

Gallai hyn fod yn fuddiol i sefydliadau a chyrff wrth gynllunio yn ieithyddol.

**Adnoddau eraill Llywodraeth Cymru:**

Nid yw'r newidiadau hyn yn cael eu hesbonio yn glir yn y papur gwyn, ac felly mae'r ansicrwydd hwn yn achosi pryder i ni. Rydym wedi gweithio yn galed dros y blynyddoedd diwethaf i fagu perthynas a dealltwriaeth gyda swyddogion y Llywodraeth, yn enwedig o safbwynt sefyllfa unigryw Gwynedd a'r gofynion ac anghenion hybu sydd yn berthnasol i'r sir, ac felly byddai gorfod sefydlu perthynas o'r newydd gyda chorff arall yn gallu bob yn broblemus.

Mae teimlad bod y Comisiwn yn mynd i orfod gwneud mwy o waith hybu, ond heb arian ychwanegol.

**Opsiynau:**

Mae **Opsiynau 2 a 3** yn golygu sefydlu 3 chorff, ac ni fyddem yn cefnogi hynny dan unrhyw amgylchiadau. Credwn yn gryf bod angen gweithio ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli ac addasu cyfrifoldebau, yn hytrach na chreu mwy o newid a chymhlethdod yn rhy fuan. Rhaid rhoi amser i drefniadau sefydlu cyn gorfodi newid mawr arall.

Yr hyn sydd o blaid **Opsiwn 4** a'r syniad o sefydlu un corff yw y byddai yna elfen o annibyniaeth, gyda'r swyddogaeth hybu led braich oddi wrth y swyddogaeth o osod y safonau.

Serch hynny, mae gennym bryderon am yr opsiwn hon am nifer o resymau.

- Byddai newid o'r fath, er mai ffurf o ailstrwythuro ac addasu swyddfa'r Comisiynydd sydd yma i fodel tebycach i Fwrdd yr Iaith gynt mewn gwirionedd, yn dal i fod yn newid mawr, ac mae'n cymryd amser i unrhyw newid gael effaith. Byddai cyfnod hir tebygol o sefydlogi ac addasu i gyfrifoldebau yn gallu arwain at gyfnod ansefydlog arall i'r cyrff a'r asiantaethau sydd angen arweiniad a chymorth.

- Nid ydym yn siŵr a allai'r holl gyfrifoldebau a amlinellir eistedd yn gyfforddus o dan yr un ymbarél. Mae canoli'r swyddogaethau hybu yn gwneud synnwyr ar yr wyneb, ond mae'r Safonau yn rhoi cyd-destun gwahanol iawn i ni ac felly mae angen i unrhyw gorff fod yn gallu ymateb i'r cyd-destun cyfredol yma. Mae'r opsiwn a gynigir yn gofyn i'r corff fod yn monitro'r Safonau (ond nid eu gosod) yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt ac yn ddyrannwr grantiau ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud efo hybu'r Gymraeg. Byddai angen trefniadau a strwythur clir i sicrhau bod pob maes yn cael sylw teg, ac felly nid yw'r cynnig yn y papur gwyn ar ei ben ei hun yn rhoi'r sicrwydd hwnnw i ni.

- Mae tynnu'r dyletswydd gosod y safonau yn un peth, ond os oes rôl gorfodi ac ymchwilio i gwynion yn dal i eistedd efo'r Comisiynydd/Comisiwn, mae yna dal bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau. All un sefydliad wir fod yn bastwn ac yn foronen ar yr un pryd? Byddai'n anodd iawn cadw cydbwysedd a byddai angen gwneud yn siŵr bod unrhyw fonitro yn cael ei wneud mewn ysbryd o geisio gwella gwasanaethau yn hytrach na craffu ar wendidau. Byddai hyn yn gofyn am newid agwedd gan y sefydliad, ac hefyd gan swyddogion y cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn rhan o drefn y Safonau, er mwyn i bawb symud ymlaen gyda'i gilydd.

- Mae cwestiwn hefyd, os yw'r Llywodraeth yn gyfrifol am osod y Safonau, ai nhw hefyd ddylai fod yn gyfrifol am unrhyw orfodi a chosbi. Hyd yn oed gyda'r newidiadau a gynigir i'r drefn gwynion, sydd yn ei gwneud yn fwy hyblyg, mae'n anodd gweld sut y gallai un corff fod yn hybu ac yn rhoi cefnogaeth os mai nhw sydd hefyd yn ymchwilio. Ac eto, rhaid cadw'r drefn hon yn annibynnol.

- Mae **Opsiwn 4** hefyd yn golygu mai'r corff yma fydd yn dyrannu arian grant ar gyfer sefydliadau fel y Mentrau Iaith. Mae peryg i'r un corff yma gael ei ymestyn yn ormodol, ac i

adnoddau fynd yn brin i wneud unrhyw wahaniaeth gwirioneddol. Byddai angen sicrhau felly bod y gyllideb yn briodol, ac yn cynyddu yn ôl yr angen, yn hytrach na bod disgwyl i'r corff ymgymryd â mwy o ddyletswyddau dan yr un gyllideb.

## Rhan 2: Llywodraethiant ac Atebolrwydd:

**Amlinellir yma y trefniadau llywodraethiant newydd posib. Mae'n cynnig sawl model llywodraethu, yn dibynnu ar pa fodel fydd yn cael ei ddewis yn rhan 1. Gan mai sefydlu Comisiwn y mae'r Llywodraeth yn ei ffafrio, opsiwn 3 sydd yn amlwg yn cael ei ffafrio yma.**

**Mae'r adran hon hefyd yn delio gyda dyletswyddau'r Llywodraeth i lunio strategaeth iaith.**

Ymateb drafft:

Rydym mewn egwyddor yn cefnogi Opsiwn 3, sef sefydlu Comisiwn y Gymraeg, er mwyn gallu cael sicrwydd am atebolrwydd – yn enwedig o ran y cyfrifoldebau newydd.

Yn sicr mae llawer o'r pryderon am y system bresennol wedi bod ynghlwm wrth y ffaith bod unigolyn gyda'r grym i wneud penderfyniadau ar faes sydd yn aml yn llwyd yn hytrach na du a gwyn. Byddai angen gweld strwythur adrannol arfaethedig ar gyfer y corff er mwyn cael syniad o sut y byddai'n gweithio a sut byddai'r gwahanol swyddogaethau yn cael sylw teg.

**Dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

Mae ychydig o ansicrwydd ynghylch y cynnig hwn. -Er yn croesawu'r syniad y byddai strategaeth y Comisiwn yn cyfrannu yn uniongyrchol at weledigaeth Cymraeg 2050 – a bod hyn yn adlewyrchu'r modd yr ydym ninnau yma yng Nghyngor Gwynedd yn ceisio uno'r cyfeiriad a'r weledigaeth strategol hir dymor drwy blethu'r Strategaeth gyda'r Cynllun Llesiant ac ati – mae gennym bryder bod yr hyn a gynigir yma yn aneglur.

Nid ydym yn credu mai cyfrifoldeb y corff annibynnol (Comisiwn) fydd gweithredu Cymraeg 2050, er y dylent fel pob sefydliad a chorff cyhoeddus arall allu dangos sut y maent yn cyfrannu tuag ati.

Cytuno bod adrodd bob blwyddyn ar strategaeth hir dymor yn afrealistig, ond ni ellir ychwaith golchi dwylo o gyfrifoldebau ehangach.

Mae pryder nad oes atebolrwydd digon clir i adrannau o fewn y Llywodraeth ei hun, fel gwasanaeth sifil, i fod yn dangos y ffordd ac arwain drwy esiampl.

## Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

**Mae'r rhan hon yn esbonio'r newidiadau a gynigir i drefn bresennol y Safonau Iaith.**

**Mae'r newidiadau yn ceisio symud at drefn fwy cytbwys a theg, sydd a llai o "orfodaeth" ac sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar "unioni".**

**Mae hefyd yn cynnig newidiadau fydd yn ceisio unioni llawer o'r ansicrwydd sydd yn bodoli o amgylch diffinio nifer o safonau.**

Ymateb drafft:

Mae posib bod y llywodraeth yn eu cynigion yn ceisio bod yn rhy hyblyg ac yn ceisio ateb problemau pawb, ac y gallai hynny yn y pen draw arwain at fwy o anghysondeb. Mae llawer o sôn am ddiwygio neu ddileu safonau, a bydd angen bod yn ofalus nad yw hyn yn gymhlethu pethau fwy.

Yn y bôn, yr hyn sydd ei angen yw dealltwriaeth mai ar daith ydym ni ac y bydd cyrff yn cyrraedd y nôd a wahanol adegau. Ond mae peryg o beidio gosod y safonau perthnasol o'r cychwyn y byddai cyrff yn cymryd eu hamser i weithredu heb fod yn cadw golwg ar lle mae angen iddynt gyrraedd yn y pen draw. Mae angen lleihau'r eithriadau a gweithio ar sut i annog continwwm o welliant.

Byddai cynlluniau eithrio (opsiwn 4) yn rhoi gormod o rym i sefydliadau, ac mae gosod set fechan o safonau cyffredinol yn beryg o wanhau'r ymrwymiad sydd yn dechrau amlygu ei hun ymysg y cyrff cyhoeddus i weithredu.

Er ein bod yn cytuno mai'r opsiwn orau yw diwygio'r system bresennol felly, bydd angen llawer mwy o wybodaeth, ac enghreifftiau penodol i ni fod yn cwbl sicr.

**Hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg**

Credwn y dylid ystyried yr opsiwn hon ar wahân i'r ystyriaethau ynghylch diwygio'r Safonau. Rydym o'r farn y dylai'r mesur gynnwys rhyw fath o ymrwymiad sylfaenol i hawliau unigolion. Er yn cydnabod y byddai diffinio hyn yn anodd, credwn bod angen i bobl gael y sicrwydd y bydd eu hanghenion ieithyddol yn cael eu parchu, ac mai dim ond drwy osod hawl cyfreithiol y gellir gwneud hynny. Mae Cyngor Gwynedd yn dilyn yr egwyddor mai'r hyn sydd orau i'r trigolion sydd yn dod gyntaf, ac y byddwn wrth gyflwyno gwasanaethau sydd yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bob peth. Yng nghyswllt y safonau a gweithrediad ein polisi iaith, mae hyn yn golygu ein bod yn edrych ar yr hyn sydd orau i'r unigolyn, a'r hyn y mae nhw ei angen, yn hytrach na'r hyn sydd fwyaf hwylus neu fwyaf ymarferol i'r darparwr. O ddilyn yr un egwyddor, a gosod cynsail yn y Mesur, gellid sicrhau bod gorfodaeth ar sefydliadau i ymateb i anghenion pobl ac i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg os oes wir ei angen. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn Mwy na Geiriau, sydd yn gosod fframwaith ar gyfer y gwasanaethau iechyd a gofal, i ystyried "angen" yn hytrach na "dewis" iaith. Mae'r Safonau eisoes yn cynnwys cyfeiriad at gyfarfodydd sydd yn ymwneud efo llesiant, er enghraifft, a gellid yn syml ehangu ar hynny. Byddai gosod hawl i unigolion ddewis a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymwneud a lles a materion personol, er enghraifft, yn cryfhau hawliau'r cyhoedd.

Heb osod yr hawl sylfaenol, mae peryg y bydd rhai sefydliadau yn dal i ddadlau nad oes "galw".

**Dosbarthiad Safonau a dyletswyddau cynllunio ieithyddol**

Er bod peryg i newid dosbarthiad y safonau ychwanegu eto at ddryswch ac anghysondeb, mae posib cytuno a'r diffiniad a roddir o safonau sydd yn ymwneud â hawliau'r unigolion a safonau sydd yn ymwneud â chynllunio ieithyddol. Mae'n wir bod y rhan fwyaf o'r safonau fel ag y maent yn

ymwneud efo gweithdrefnau, ac nad ydynt o ddiddordeb o gwbl i'r rhai sydd yn derbyn gwasanaethau, ac felly y byddai diffinio'r safonau o dan y ddau bennawd hwn yn gallu gwneud pethau'n fwy eglur ac yn helpu sefydliadau i ddeall eu dyletswyddau.

Rydym yn cytuno bod angen gosod mwy o ddisgwyliad i sefydliadau gynllunio yn ieithyddol, ac mae'n bwysig eu bod yn gweld sut mae eu hymdrechion i gynllunio'r gweithlu ac ati yn cyfrannu at y weledigaeth ehangach.

Rhaid hefyd cael cyswllt cliriach rhwng y Safonau a fframweithiau a pholisïau eraill perthnasol, megis fframwaith Mwy na Geiriau a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae gosod dyletswydd cynllunio ieithyddol, sydd yn annog sefydliadau i edrych ar y cysylltiadau ac i uno cynlluniau perthnasol, yn fodd o wneud hynny.

Ond byddai angen rhoi arweiniad clir i sefydliadau er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd yn ddisgwyliedig.

**Gweithdrefnau ar gyfer gwneud, gosod, gweithredu a gorfodi Safonau**

**Gwneud a gosod safonau ar gyrff**

Rydym yn cytuno â'r cynnig i roi cyfrifoldeb am osod y Safonau i'r Llywodraeth, ac y dylai'r broses ymgynghori cyn eu gosod fod mor syml a chyflym â phosib.

Nid ydym mor sicr am y cynnig i roi pwerau cyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau mewn perthynas â'r safonau i Lywodraeth Cymru.  Gellir dadlau os mai'r Comisiwn arfaethedig sydd â'r cyfrifoldeb hybu, mai gyda'r corff hwnnw y dylai'r ddyletswydd eistedd.

Os mai ceisio eglurder ar ddiffiniad safonau yw'r bwriad, gallai eistedd gyda'r Llywodraeth, ond fel arall, ac os mai'r bwriad yw cynnig arweiniad a rhannu arferion da, yna siawns mai o dan y fantell hybu y mae'r lleoliad mwyaf addas.  Nid yw'r Comisiynydd, dan y drefn bresennol, wedi bod y mwyaf effeithiol o safbwynt cynhyrchu codau ymarfer a chanllawiau, ond mae hynny beryg oherwydd eu bod yn ei chael yn anodd diffinio'r ddwy rôl, a chynnig cyngor ac arweiniad ar yr union safonau y maent i fod i'w rheoleiddio.  Bydd angen bod yn sicr nad yw'r un gwrthdaro yn digwydd yn y dyfodol a chredwn y byddai unrhyw ganllawiau yn cael eu derbyn yn well gan y corff annibynnol os mai prif fwriad y newidiadau hyn yw magu ewyllys da ag agweddau cadarnhaol.

**Gwneud a gosod safonau ar sectorau**

Cytuno y dylai fod gan y llywodraeth bwerau i osod safonau ar sectorau penodol.

**Cwynion**

Rydym yn cytuno yn gyffredinol gyda'r newidiadau a gynigir i'r drefn gwynion. Yn achos hawl y Comisiwn arfaethedig i gynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun os yw mater yn dod i'w sylw sydd yn awgrymu nad yw corff yn cydymffurfio, rhaid sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw ymchwiliad o'r fath yn gadarn, ac nad yw yn seiliedig ar farn unigolyn neu ar un digwyddiad ar hap yn unig.  Rhaid caniatáu i gyrff ymateb yn llawn ac yn ystyrlon i gwynion, ac mae hynny yn golygu bod angen gwybod beth yw natur y gwyn, gan gynnwys manylion am leoliad a dyddiad ac ati.  Drwy gelu gwybodaeth a pheidio datgan yn glir beth yw'r gwyn, nid oes modd i sefydliad farnu pa wybodaeth

sydd ei angen a pha dystiolaeth sydd yn hanfodol.  Drwy gael y manylion yn llawn ar y cychwyn, bydd posib symleiddio'r broses a sicrhau nad oes amser ac adnoddau prin yn cael eu gwastraffu yn y cyrff.

## Rhan 4: Cwmpas y cyrff sy'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y Gymraeg

Cytunwn mewn egwyddor a'r cynnig y dylid dileu'r cyfyngiadau a osodir yn y Mesur presennol fel bod modd i'r Llywodraeth osod safonau ar gyrff sector breifat, ond nid ydym yn cytuno y dylid cyfyngu hynny i safonau sydd yn ymwneud gyda gwasanaethau a gyflenwir i gwsmeriaid yn unig. Er bod dymuniad i weld llai o faich gweinyddol yn gyffredinol yn y Safonau, nid ydym yn credu y byddai'n ddoeth eithrio y safonau cadw cofnodion yn gyfan gwbl. O ystyried y drafodaeth flaenorol am swyddogaethau cynllunio ieithyddol, mae cadw cofnodion yn rhan hanfodol o dystiolaethu bod cyrff yn cynllunio yn fwriadol i ateb gofynion ac anghenion y cyhoedd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 HYDREF 2017** |
| **TEITL:** | **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR IAITH** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br><br>**Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen |

**1. Cefndir**

1.1 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor (4ydd Gorffennaf 2017) cafwyd cyflwyniad gan Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol ar gylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith.

1.2 Cadarnhawyd mai rôl y pwyllgor yn benodol yw goruchwylio gweithrediad y polisi iaith a chydymffurfiaeth gyda'r Safonau Iaith a'r modd y mae adrannau a trefniadaeth fewnol yn llwyddo i hybu'r Gymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.

1.3 Adroddwyd bod y Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau ar feysydd penodol yn y gorffennol, a bod cyfle i edrych ar gynnal mwy o ymchwiliadau o'r fath yn y dyfodol.

1.4 Gofynnwyd am eglurder am y math o bethau y bydd y Pwyllgor Iaith yn eu trafod dros y misoedd nesaf, ac mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r ffrydiau gwaith y bydd y Pwyllgor yn rhan ohonynt dros y misoedd i ddod.

**2. Eitemau arfaethedig Pwyllgor Iaith**

2.1 Dyma'r ffrydiau gwaith y mae gen y Pwyllgor iaith fewnbwn iddynt ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| 1. | Strategaeth Iaith Sirol |
| 2. | Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn – diweddariad wedi cyfnod ymgynghori |
| 3. | Canllaw Cynllunio Atodol Gwynedd a Môn – ar y cyd gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| 4. | Bil y Gymraeg –ymgynghori ac ymateb i newidiadau arfaethedig |

2.2 Bydd adroddiadau ar y canlynol hefyd yn rhan o eitemau y Pwyllgor Iaith nesaf:

- Mwy na Geiriau
- Gwaith Hunaniaith

## 3. Argymhellion

Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr adroddiad a'r rhaglen waith.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **12 HYDREF 2017** |
| **TEITL:** | **Cwynion ac Ymchwiliadau** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br><br>**Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno'r cwynion a'r ymchwiliadau diweddaraf i'r Pwyllgor |

**CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH**

1. **Dyfarniad Ymchwiliad CSG127**

1.1 Ym mis Medi 2016, derbyniodd y Cyngor hysbysiad bod y Comisiynydd Iaith yn bwriadu cynnal ymchwiliad i fethiant honedig i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

1.2 Roedd yr ymchwiliad hwn yn ymwneud ag amheuaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â dau Safon wrth ddarparu gwersi nofio mewn canolfannau hamdden.

**Safon 81**
Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

**Safon 84**
Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

1.3 Cafwyd dyfarniad terfynol yr ymchwiliad ar **25 Gorffennaf 2017**.

1.4 Roedd y dyfarniad yn nodi nad oedd y Cyngor, ym marn y Comisiynydd, wedi methu a chydymffurfio gyda Safon 84, ond eu bod wedi methu gyda Safon 81, ar y sail nad ydym ar hyn o bryd yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.

1.5 Roedd yr adroddiad terfynol yn nodi'r angen i gymryd camau i gydymffurfio a safon 81, ac roedd yn cynnig nifer o opsiynau ar gyfer sut i wneud hynny.

3.*10.6 Enghreifftiau o ddulliau posibl y gellid eu defnyddio i hybu a hysbysebu'r gwersi nofio Cymraeg yw:*

- *gosod gwybodaeth ar dudalennau perthnasol ar wefan yr awdurdod lleol;*
- *rhannu gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol;*
- *gosod gwybodaeth mewn deunyddiau ysgrifenedig sydd ar gael mewn canolfannau hamdden a lleoliadau eraill;*

- *cysylltu â phobl yn uniongyrchol, neu rannu deunyddiau, er mwyn tynnu sylw pobl at y ffaith fod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg;*

- *sicrhau bod staff rheng flaen yn cyfeirio pobl sy'n ymholi am wersi nofio Cymraeg at y ddarpariaeth sydd ar gael.*

1.6 Mae'r Uned Iaith yn gweithio gyda'r gwasanaeth Hamdden a thîm y we i ganfod y ffordd orau o fodloni'r gofynion gweithredu hyn.

**CWYNION UNIONGYRCHOL AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

| Adran | Nifer y Cwynion |
|---|---|
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2 |

Roedd y ddwy gwyn uchod yn erbyn Polisi Iaith yn Cyngor yn ymwneud â pholisi recriwtio'r Cyngor a'r angen i gael sgiliau Cymraeg i ymgeisio am swyddi.